OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 3211 (Cy.304)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *9 Rhagfyr 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Rhagfyr 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 140(4) a 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi(**1**) sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru (**2**):

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2003 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2003.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 1992" yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**3**).

**Diwygio Rheoliadau 1992**

**2.** O ran y blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2004, diwygir Atodlenni 2 a 4 i Reoliadau 1992 fel a ganlyn:—

(a) ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2 yn lle "0.999" rhoddir "0.998"; a

(b) yn lle Atodlen 4 i Reoliadau 1992 rhoddir yr Atodlen a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1988 p.41.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1992/3238, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/619, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3439 (Cy.47), 2000/3382 (Cy. 220), 2001/3910 (Cy.322) a 2002/3054 (Cy.289).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*D. Elis-Thomas*

9 Rhagfyr 2003

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

## YR ATODLEN

Rheoliad 2

## "SCHEDULE 4

Regulation 6

## ADULT POPULATION FIGURES

| **Billing authority area** | **Prescribed figure** |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 52,800 |
| Bridgend | 99,400 |
| Caerphilly | 129,200 |
| Carmarthenshire | 137,000 |
| Cardiff | 238,900 |
| Ceredigion | 62,500 |
| Conwy | 87,500 |
| Denbighshire | 73,400 |
| Flintshire | 114,900 |
| Gwynedd | 91,900 |
| Isle of Anglesey | 53,000 |
| Merthyr Tydfil | 42,500 |
| Monmouthshire | 65,700 |
| Neath Port Talbot | 104,900 |
| Newport | 104,400 |
| Pembrokeshire | 88,000 |
| Powys | 99,700 |
| Rhondda Cynon Taf | 177,200 |
| Swansea | 176,100 |
| Torfaen | 69,200 |
| Vale of Glamorgan (The) | 91,200 |
| Wrexham | 100,700" |

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mae'n ofynnol i awdurdodau bilio yng Nghymru dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Gynulliad Cenedlaethol

Cymru. Mae'r rheolau ar gyfer cyfrifo'r symiau hynny wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 ("Rheoliadau 1992").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy roi lluosydd newydd ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2 (Rhagdybiaethau ynglyn â'r Swm Gros), ac Atodlen 4 newydd (Ffigurau Poblogaeth Oedolion).